



Meeting

**CYNHADLEDD GYSWLLT RHEIFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN**

Date and Time

**11.00 y.b., DYDD GWENER, 3YDD MAWRTH, 2017**

Location

**Y Ganolfan (ger yr Harbwr),  
Porthmadog  
Gwynedd**

Contact Point

**Glynda O'Brien  
(01341) 424301**

**[glyndaobrien@gwynedd.llyw.cymru](mailto:glyndaobrien@gwynedd.llyw.cymru)**

(DOSBARTHWYD: 24.2.17)

## AELODAETH

### **Cyngor Gwynedd Council**

Y Cyng. / Councillors: E. Selwyn Griffiths, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Anne Lloyd Jones, Eryl Jones-Williams, Dewi Owen, Angela Russell, Eirwyn Williams, Gethin Glyn Williams ac Owain Williams.

### **Cyngor Sir Ceredigion County Council**

Disgwyl Enwebiad / Awaiting Nomination

### **Cyngor Sir Powys County Council**

Y Cyng. / Councillor J M Williams

### **AELODAU ERAILL / OTHER MEMBERS:**

Dafydd Elis-Thomas	Assembly Member for Dwyfor/Meirionnydd
Liz Saville Roberts	Member of Parliament for Dwyfor/Meirionnydd
Dave Thomas	LLywodraeth Cymru / Welsh Government
Claire Britton	Rheilffordd Ffestiniog / Ffestiniog Railway
Cynghorydd Trevor Roberts	Shrewsbury/Aberystwyth Railway Liaison Committee
Tim Bell	Trenau Arriva Cymru / Arriva Trains Wales
Ben Davies	Trenau Arriva Cymru / Arriva Trains Wales
Rhydian Mason	Partneriaeth Rheilffyrdd y Cambrian Line Partnership
David Crunkhorn	Trenau Arriva Cymru / Arriva Trains Wales
Samuel Hadley	Network Rail
Carl Jones	Network Rail
Helen Lewis	Ysgol Uwchradd Tywyn
Tudur O Williams	Ysgol Ardudwy
Pennaeth	Coleg Meirion-Dwyfor
Joyce Watson	AC Canolbarth a Gorllewin Cymru / AM for Mid and West Wales
Simon Thomas	AC Canolbarth a Gorllewin Cymru /AM for Mid and West Wales
Neil Hamilton	AC Canolbarth a Gorllewin Cymru / AM for Mid and West Wales
David Woodhouse	Twristiaeth Aberdyfi a Thywyn / Aberdyfi and Tywyn Tourism
Tracy Parkinson	Rheilffordd Talyllyn / Talyllyn Railway
Roger Goodhew	Shrewsbury/Aberystwyth Passenger Association
Sgt. Karl Anderson	Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig /British Transport Police
Rob Newman	Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig / British Transport Police
Inspector Mark Armstrong	Heddlu Gogledd Cymru / North Wales Police
Councillor Delwyn Evans	Grwp Mynediad Meirionnydd Access Group
Councillor Alun Wyn Evans	Cynrychiolydd Un Llais Cymru Ardal Meirionnydd Representative One Voice Wales
Councillor Trefor Jones	Cynrychiolydd Un Llais Cymru Ardal Dwyfor Representative One Voice Wales
David L Roberts	Parc Cenedlaethol Eryri / Snowdonia National Park
Ann Elias	Tim Ymgysylltu Rhanbarthaol Canolbarth Cymru / Mid Wales Regional Engagement Team – Strategic Transport

# AGENDA

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYD

I ystyried unrhyw fater sydd yn teilyngu sylw bryd ym marn y Cadeirydd.

## 4. COFNODION

6 - 13

I gadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 11 Tachwedd 2016.

(Copi'n amgaaedig)

## 5. ADRODDIAD GAN NETWORK RAIL

I dderbyn adroddiad gan Mr Sam Hadley, Network Rail.

## 6. ADRODDIAD GAN TRENAU ARRIVA CYMRU CYF.

I dderbyn adroddiad gan Mr Ben Davies, Trenau Arriva Cymru.

## 7. ADRODDIAD SWYDDOG PARTNERIAETH RHEILFFYRDD Y CAMBRIAN

14 - 15

I dderbyn adroddiad gan Mr Rhydian Mason, Swyddog Partneriaeth Rheilffyrdd y Cambrian.

(Copi'n amgaaedig)

## 8. ADRODDIAD GAN HEDDLU TRANFIDIAETH PRYDEINIG

I dderbyn adroddiad gan Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig.

## 9. CWESTIYNAU FFURFIOL

16 - 31

I dderbyn ymateb i'r cwestiynau amgaaedig a dderbyniwyd ers y cyfarfod diwethaf.

- (a) Atodiad 1 – Cwestiwn gan y Cadeirydd
- (b) Atodiad 2 – Cwestiwn gan Grwp Mynediad Meirionnydd
- (c) Atodiad 3 – Cwestiwn gan Gyngor Cymuned Llanystumdwy
- (d) Atodiad 4 – Cwestiwn gan Gyngor Tref Penrhyndeudraeth
- (e) Atodiad 5 – Cwestiwn gan Gyngor Tref Pwllheli
- (f) Atodiad 6 – Cwestiwn gan Gyngor Tref Cricieth

- (g) Atodiad 7 (i) – Cwestiwn gan Gyngor Cymuned Llangelynnin
- (h) Atodiad 7 (ii) – Cwestiwn gan Gyngor Cymuned Llangelynnin
- (i) Atodiad 8 (i) – Cwestiwn gan Gyngor Tref Porthmadog
- (j) Atodiad 8 (ii) – Gohebiaeth gan Mr Hunt, Porthmadog

(Copiau'n amgaaedig)

## 10. **NODYN I'R DYDDIADUR**

Fe fydd Trafnidiaeth Cymru yn lansio ymgynghoriad cyhoeddus ar Wasanaeth Trên Cymru â'r Gororau cyn hir. Fel rhan o'r broses ymgynghori, fe fyddent yn cynnal nifer o weithdai **hanner-dydd, bore** i hêl eich barn ar y Wasanaeth newydd. Mae'r dyddiadau isod, i chi nodi yn eich dyddiadur. Bydd mwy o wybodaeth a manylion ar sut i gofrestru yn dilyn unwaith mae'r ymgynghoriad wedi'i lansio.

### **Dyddiadau a lleoliadau**

20 Mawrth	Canolfan Gateway Centre, Amwythig
21 Mawrth	Venue Cymru, Llandudno
28 Mawrth	Coleg y Cymoedd, Nantgarw
29 Mawrth	Gwesty'r Ivy Bush Hotel, Caerfyrddin / Carmarthen
3 Ebrill	Gwesty'r Marine Hotel, Aberystwyth

## GYNHADLEDD GYSWLLT RHEILFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN

Cofnodion cyfarfod Cynhadledd Gyswllt Rheilffordd Arfordir y Cambrian a gynhaliwyd yn y Ganolfan, Porthmadog, ar ddydd Gwener, 11 Tachwedd 2016  
O 11.00 a.m. tan 12.45 p.m.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorydd E. Selwyn Griffiths - Cadeirydd  
Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams - Is-gadeirydd

#### Yn cynrychioli:

Y Cynghorwyr Anne Lloyd Jones, Dewi Owen, Annwen Hughes, Gethin Williams, Eirwyn Williams, John Brynmor Hughes, Angela A. Russell, (Cyngor Gwynedd), Cyng. J.Michael Williams (Cyngor Sir Powys), Yr Arglwydd Dafydd Elis Thomas (Aelod Cynulliad Dwyfor/Meirionnydd), Mrs Liz Saville Roberts (Aelod Seneddol Dwyfor/Meirionnydd), Cyng. Delwyn Evans (Grŵp Mynediad Meirionnydd), Cyng. Trefor Jones (Cynrychiolydd Dwyfor Unllais Cymru), Mr D. Woodhouse (Twristiaeth Aberdyfi a Thywyn), Mr Ben Davies (Trenau Arriva Cymru), Mr Roger Goodhew (Cymdeithas Teithwyr Trenau Amwythig-Aberystwyth), Mr Rhydian Mason (Swyddog Partneriaeth Rheilffyrdd y Cambrian), Llinos Roberts (Swyddog Trafnidiaeth Gyhoeddus a Chymunedol), Mrs Mererid Watt (Cyfieithydd), Mrs Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Owain Williams, Mr Tudur Williams (Pennaeth Ysgol Ardudwy), Mr Alun Wyn Evans (Cynrychiolydd Meirionnydd Unllais Cymru), Heddwes Rob Newman (Heddlu Trafnidiaeth Prydain), Y Cyng. Trevor Roberts (Pwyllgor Cyswllt Rheilffordd Amwythig-Aberystwyth), Mr Neil Hamilton (AC Canolbarth a Gorllewin Cymru), Tracy Parkinson (Rheilffordd Talyllyn).

**Cyn i'r cyfarfod ddechrau cafwyd dau funud o dawelwch am 11.00 o'r gloch i gofio am y rhai a aberthodd eu bywydau mewn rhyfeloedd ar Ddiwrnod y Cadoediad.**

#### 1. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

#### 2. **MATERION BRYS**

Nid oedd y Cadeirydd wedi derbyn unrhyw faterion brys.

#### 3. **COFNODION**

**Cyflwynwyd:** Cofnodion cyfarfod y gynhadledd a gynhaliwyd ar 20 Mai 2016.

**Penderfynwyd:** Derbyn a chymeradwyo'r cofnodion.

#### 4. **ADRODDIAD GAN NETWORK RAIL**

Croesawyd Mr Sam Hadley, Rheolwr Materion Cyhoeddus Llwybrau Cymru a Mr Mark Peters, Peiriannydd Asedau i'r cyfarfod.

Roedd Mr Mark Peters wedi paratoi cyflwyniad ar Draphont Abermaw ar ffurf sleidiau ond yn anffodus nid oedd yr offer angenrheidiol ar gael ac felly addawodd y byddai'n anfon y cyflwyniad i'r Swyddog Cefnogi Aelodau iddi hithau ei anfon ymlaen i aelodau'r Pwyllgor.

Aeth yn ei flaen i ddatgan fod y trenau yn rhedeg ers y tân diweddar ar Draphont Abermaw a hyderai mai dim ond ychydig o waith adfer oedd ar ôl i'w orffen ac y bydd hyn yn cael ei wneud cyn gynted â phosib.

Dywedodd Swyddog Partneriaeth Rheilffyrdd y Cambrian y byddai'r draphont yn dathlu 150 mlynedd y flwyddyn nesaf ac roedd yn awyddus i wybod am raglen y gwaith datblygu ar y draphont a'r amserlen i gael gwybod am faint o amser na fyddai modd ei defnyddio. Gofynnodd hefyd i Network Rail i fod yn ystyriol gan leihau unrhyw darfu cymaint ag oedd yn bosib yn ystod y tymor gwyliau prysur, gan fod yr ardal yn dibynnu yn llawer iawn ar dwristiaeth.

Fel rhan o'r dathliadau pen-blwydd, awgrymwyd y dylid dangos ffilm enwog a chyffrous 'Ghost Train' ac awgrymodd Mr Ben Davies, Trenau Arriva Cymru, hefyd y gellid defnyddio hanner un o'r trenau fel sinema i ddangos y ffilm.

I ateb yr uchod, dywedodd Mr Sam Hadley fod Siân Lewis, oedd yn bresennol yn y cyfarfod diwethaf, bellach ddim yn swyddog noddi i'r Cynllun Noddi Masnachol (Network Rail) ac y bydd yna noddwr newydd. Ychwanegodd hefyd y bydd Network Rail eisiau cymryd rhan yn y dathliadau a bydd yn cyfrannu ato. Addawodd Mr Hadley cyn gynted ag y byddai gwybodaeth ar gael, byddai yn rhoi gwybod i'r Swyddog Cefnogi Aelodau fel ei bod hithau yn rhoi gwybod i aelodau'r Pwyllgor.

Dywedodd aelod ei fod yn ymwybodol y byddai'r dathliad 150 mlynedd yn digwydd ym mis Hydref er mwyn peidio â gwrthdaro gyda Ras y Tri Chopa a gynhelir yn flynyddol ym mis Mehefin.

I ateb y pryderon a godwyd, sicrhodd Mr Hadley Aelodau'r Pwyllgor:

- nad oedd gan Network Rail unrhyw fwriad i gau'r lein, er bod pobl leol yn bryderus y byddai'n cau ac roedd yn sylweddoli pa mor werthfawr ydoedd i'r gymuned
- na fyddai dim yn tarfu ar y dathliad 150 mlynedd o ran gwaith amddiffyn rhag y môr
- na fyddai'r gwaith ychwanegol i wyneb y graig yn Llanaber yn effeithio ar lein y rheilffordd o gwbl a chafwyd sicrwydd y byddai'r peiriannau angenrheidiol yn mynd at y man gwaith o'r traeth.

I ateb cais Aelod Seneddol Dwyfor/Meirionnydd am ragor o wybodaeth am geisiadau cynllunio, dylunio ac ati ar Draphont Abermaw, dywedodd Mr Hadley nad oedd unrhyw eglurder ar y mater yma ond fe fyddai yn ysgrifennu i ddiweddarau'r AS ac aelodau'r Pwyllgor hwn cyn gynted ag y byddai wedi derbyn yr wybodaeth.

Nododd yr aelodau hefyd pan fo'r gwaith yn cael ei ymgymryd:

- Y dylai Network Rail/Trenau Arriva gyd-gysylltu i gael dau gerbyd ychwanegol ar y trê'n o Abermaw i Bwllheli
- Dylai Network Rail gyd-gysylltu gydag Adran Priffyrdd Gwynedd am ffordd brysur yr A496 rhwng Abermaw a Dolgellau gan fod nifer o ddamweiniau wedi digwydd arni a olygai fod yn rhaid gwyro cerbydau drwy Faentwrog.

Dywedodd Mr Ben Davies, Trenau Arriva, os fyddai'r gwaith atgyweirio yn waith tymor hir yna byddai'n achosi problemau gan fod yn rhaid i drenau gael eu harchwilio yn unol â'r canllawiau diogelwch safonol bob tair wythnos.

Aeth Mr Hadley yn ei flaen i nodi'r isod:

- Roedd Mr Andy Thomas wedi ei benodi i swydd Rheolwr Gyfarwyddwr Llwybrau Cymru a'i flaenoriaeth oedd sicrhau bod Llwybrau Cymru'n cyflawni blaenoriaethau cynrychiolwyr etholedig a'r cymunedau maent yn eu cynrychioli.
- Diweddariad ar groesfannau rheilffordd
- Rheilffyrdd Cymunedol

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, codwyd y materion isod gan yr Aelodau:

- (a) Pryder a chwynion a dderbyniwyd am drafferthion a'r diffyg llefydd parcio yng Ngorsaf Machynlleth gyda theithwyr yn gorfod gyrru ymlaen i Gaersws

Wrth ymateb, dywedodd Mr Sam Hadley bod y liffitiau wedi eu comisiynu yng Ngorsaf Machynlleth ac roeddent yn hollol hygyrch ond roedd materion angen eu cwblhau yn y bloc toiled. O ran y maes parcio, addawodd Mr Hadley i drafod y mater gyda Mr Ben Davies, Trenau Arriva Cymru, ond nododd y byddai unrhyw welliannau oedd yn fwy ac uwchben yr hyn a ystyrid yn waith gwella gorsaf, angen arian trydydd parti.

Ychwanegodd Mr Rhydian Mason ei fod fel rhan o'i waith fel swyddog datblygu i'r lein rheilffordd yn ymgynghori gyda Chyngor Sir Powys gan edrych ar amryfal opsiynau i greu cyfnewidfa gorsaf reilffordd drwy gael gwell gosodiad, creu cylch troi i fysiau a maes parcio gwell. Roedd tir a fedrai fod ar gael ac y gellid ei ddefnyddio wedyn i ddyblu maint y maes parcio. Y gobaith oedd y gellid fod wedi cyflwyno cais i Lywodraeth Cymru eleni, ond yn anffodus roedd y cais yn bell o fod yn barod gan fod materion ar ôl gyda draenio a rhai materion eraill oedd angen eu goresgyn. Er y gwerthfawrogwyd fod y sefyllfa fel yr oedd yn bell o fod yn ddelfrydol, sicrhawyd y byddai newidiadau mawr ymhen amser ac y byddai cynllun cyfnewidfa ystyrlon a thrawiadol ym Machynlleth.

Yn y cyfamser, cytunodd Mr Ben Davies i ymgynghori gyda Rheolwr Gorsaf Machynlleth i osod arwyddion yn y maes parcio i ddatgan mai dim ond defnyddwyr y rheilffordd a ddylai ei ddefnyddio.

- (b) Tynnwyd sylw'r swyddogion fod maes parcio Fairbourne mewn cyflwr gwael ac angen ei dacluso.

Wrth ateb, cytunodd Mr Sam Hadley a Mr Ben Davies i holi pwy oedd yn gyfrifol am y maes parcio uchod.

(c) I ateb pryder y Cyng. Dewi Owen am Gyffordd Dyfi, dywedodd Mr Hadley ei fod yn gyfarwydd gyda'r trafferthion ac roedd wedi trafod hyn gyda'r Cyngor Cymuned, ac yn ôl yr hyn a ddeallai roedd y giât mynediad i gerbydau bellach wedi ei chloi. Os fyddai rhagor o wybodaeth am hyn byddai yn cael ei anfon ymlaen.

**Penderfynwyd: (a) Nodi'r adroddiad a'r sylwadau uchod.**

**(b) Gwahodd Mr Andy Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr Llwybrau Cymru, i gyfarfod y Pwyllgor yn y gwanwyn.**

**(c) Bod Mr Sam Hadley yn diweddarau'r aelodau ar y materion isod cyn gynted ag yr oedd yr wybodaeth i law:**

- **Traphont Abermaw o ran noddwr newydd, manylion cais cynllunio,**
- **Trafferthion parcio yng Ngorsaf Machynlleth**
- **Perchnogaeth maes parcio Fairbourne a'r angen i'w dacluso**
- **Cyffordd Dyfi**

## **5. ADRODDIAD GAN DRENAU ARRIVA CYMRU CYF**

Rhoddodd y Cadeirydd groeso i Mr Ben Davies, Trenau Arriva Cymru, i gyflwyno ei adroddiad ar weithgareddau Trenau Arriva Cymru hyd yma.

Roedd yr aelodau wedi derbyn newyddlen yr Hydref drwy e-bost.

Dywedodd Mr Davies nad oedd hi wedi bod yn haf arbennig o dda i Drenau Arriva Cymru o ran problemau gweithredu ar y lein ac roedd hyn oherwydd:

- Y tân ar draphont Abermaw
- Diffyg gyrwyr trenau - pan roedd gyrwyr yn ymddeol yn gynnar gallai gymryd hyd at 12 mis i hyfforddi darpar yrwyr trêen ac felly nid oedd ganddynt unrhyw yrwyr ychwanegol
- Cyflenwad annigonol o drenau ar y lein - dim ond 24 o'r fflyd o 158 oedd yn gymhathol gyda ERTMS

Er hynny, roedd yn obeithiol y byddai'r sefyllfa yn gwella.

Llongyfarchwyd Swyddog Rheilffyrdd Partneriaeth y Cambrian a diolchwyd iddo am ei waith yn hyrwyddo'r lein. Nodwyd ymhellach fod Ysgol Ardudwy wedi bod yn ardderchog ac wedi cydweithio gyda hwy o safbwynt y problemau a gafwyd gyda thraphont Abermaw.

I ateb y sylwadau wnaed gan yr aelodau, dywedodd Mr Davies yr isod:

- Roedd yn derbyn fod angen cerbydau ychwanegol gan fod mwy o deithwyr yn teithio ar y trêen y dyddiau hyn
- Dyma oedd yr amser gorau i ganfasio am ragor o drenau i Gymru cyn bod y darpar gwmnïau yn cyflwyno tendrau ar gyfer y fasnachfrait nesaf yn 2018.
- Byddai yn bosib rhedeg trenau ychwanegol ar y lein yma ar yr amod fod yr offer angenrheidiol wedi ei osod arnynt iddynt fod yn gymhathol gyda ERTMS
- Bydd y system cyflwyno tocynnau newydd ar y trêen yn gymhathol gyda threnau tanddaearol Llundain

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nodwyd gan Aelodau unigol:

(a) Bod yna is-bwyllgor o bedwar aelod sef:



Cyng. Trevor Roberts  
Cyng. J. Michael Williams  
Mr Robert Robinson  
Mr Rhydian Mason

oedd mewn cysylltiad gyda Mr Ken Skates, Ysgrifennydd Economi a Seilwaith Cabined Llywodraeth Cymru ac os oedd unrhyw faterion o bryder yna dylid dod a'r rhain i sylw'r cydgyfarfod gyda Phwyllgor Rheilffordd Amwythig-Aberystwyth a gynhelir ar 25 Tachwedd 2016.

(b) O ran y broblem gyda nifer annigonol o yrwyr trên, awgrymwyd y dylid recriwtio gyrwyr rhan-amser

**Penderfynwyd - Derbyn a nodi'r adroddiad a diolch i Mr Ben Davies amdano.**

## **6. ADRODDIAD Y SWYDDOG DATBLYGU RHEILFFYRDD Y CAMBRIAN**

**Cyflwynwyd** - Adroddiad ysgrifenedig gan Mr Rhydian Mason, Swyddog Rheilffyrdd Partneriaeth y Cambrian oedd yn amlinellu'r gweithgareddau wnaed ers y cyfarfod blaenorol oedd yn cynnwys;

- Shopmobility yn Aberystwyth
- Arddangosfa Flodau yng Ngorsaf Aberystwyth
- Help Llaw - prosiect ffilm a gwaith dilynol
- Menter Llyfrgell
- Digwyddiad Cymdeithas Arriva UK plc a Chymunedau
- Arwydd cymunedol Caersws / Canolfan Gelf y Canolbarth
- Gwobrau ACORP
- Ffilm 'hyrwyddo' newydd
- Ymgyrch Croesfannau Diogel
- Cyhoeddiadau
- Ffair Glasfyfyrwyr Prifysgol Aberystwyth
- Rheilffyrdd Cymunedol Cymru
- Ceisiadau Grant Cronfa Gyfalaf Rheilffyrdd Cymunedol Llywodraeth Cymru

Cyfeiriodd Mr Mason at farwolaeth ddiweddar y Cyng. Mansel Williams ym mis Gorffennaf ac y byddai plac coffa yn cael ei osod ar blatfform 3 yng Ngorsaf Reilffordd Amwythig er cof am y diweddar Gyng. Williams. Roedd Mr Mason wedi trefnu i gwplod yn y Gymraeg i gael ei harysgrifio ar y plac.

Roedd angen canmol Pennaeth Ysgol Ardudwy a'r disgyblion am eu gwaith fel mabwysiadwyr gorsaf. Cynhelir digwyddiad ar 16 Rhagfyr 2016 i ddathlu'r gwaith a wnaed a bydd band Ysgol Ardudwy yn chwarae.

Hyderir y bydd Mr Mason yn gallu gwahodd Mr Ken Skates a'r Arglwydd Dafydd Elis-Thomas i ymweld â rhai o'r gweithgareddau gaiff eu cynnal.

O safbwynt y cardiau oren Help Llaw, hyderwyd y gellid trefnu cyfarfod arbennig gydag Aelod Seneddol Dwyfor/Meirionnydd ac Aelod Cynlluniad Dwyfor/Meirionnydd yn San Steffan cyn diwedd y flwyddyn. Nodwyd ymhellach y gallai unrhyw unigolyn ddefnyddio'r cerdyn oren os oeddent angen cymorth ar y trên. Mewn ymateb i wahoddiad i fynychu Grŵp Mynediad Meirionnydd i hyrwyddo'r cardiau oren, cytunodd Mr Mason i gyd-gysylltu gyda'r Cynghorydd Delwyn Evans er mwyn trefnu dyddiad addas.

O ran ceisiadau i Gronfa Gyfalaf Rheilffyrdd Cymunedol Llywodraeth Cymru roedd cais wedi ei gyflwyno ar gyfer llochesi yn y Trallwng, Cyffordd Dyfi a Llanaber ac fe hyderwyd y byddai un o'r ceisiadau hyn yn llwyddo.

Wrth ateb yr uchod, fe wnaed y pwyntiau isod gan yr aelodau:

- Y dylid cyflwyno cais i uwchraddio'r maes parcio yn Fairbourne
  - Pe byddai cais Llanaber yn llwyddiannus dylid sicrhau nad oedd y seddau yn wynebu tua'r môr
  - Beth oedd y sefyllfa o ran cael trenau stêm ar Lein Arfordir y Cambrian?
  - A oedd modd i'r cardiau oren fod ar gael ar gyfer holl gludiant cyhoeddus h.y. bysiau, tacsî?
  - Os gellid tacluso Gorsaf Pwllheli
- (a) Atebodd Mr Sam Hadley gan ddweud ei fod wedi ysgrifennu ateb manwl i Aelod Seneddol Dwyfor/Meirionnydd o ran y trenau stêm ac fe ellid trosglwyddo'r wybodaeth yma i'r aelodau drwy'r Swyddog Cefnogi Aelodau.
- (b) Cytunodd Mr Rhydian Mason i lunio llythyr ar ran y Pwyllgor at Mr Ken Skates i holi a fedrai'r waledi oren fod yn orfodol ar bob math o gludiant cyhoeddus

**Penderfynwyd - Derbyn a nodi'r adroddiad a diolch i Swyddog Rheilffyrdd Partneriaeth y Cambrian amdano.**

## **7. ADRODDIAD GAN HEDDLU TRAFNIDIAETH PRYDAIN**

Yn absenoldeb yr Heddwes Rob Newman, Heddlu Trafnidiaeth Prydain, cyflwynwyd ei adroddiad ysgrifenedig i'r Pwyllgor er gwybodaeth a gofynnwyd i'r aelodau a oedd yna unrhyw faterion oedd yn achosi pryder.

- (a) Roedd y Cynghorydd Annwen Hughes yn bryderus am droseddau ar groesfan reilffordd Talwrn Bach yn Llanbedr ac oherwydd y ffaith na fyddai'r gwaith o osod y rhwystrau yn dechrau tan 2018, roedd yn poeni y gallai damwain ddigwydd yma.
- (b) Wrth ateb, nododd Mr Sam Hadley y sylw a wnaed a byddai'n trefnu i'w gydweithwyr i fynychu cyfarfod nesaf y Pwyllgor hwn i ddiweddarau'r aelodau am y rhaglen adnewyddu croesfannau rheilffordd yn ogystal â'r agwedd Diogelwch Cymunedol.

**Penderfynwyd: (i) Derbyn a nodi'r adroddiad gan Heddlu Trafnidiaeth Prydain.**

**(ii) Gofyn i Mr Sam Hadley i wahodd ei gydweithwyr i gyfarfod nesaf y Pwyllgor i ddiweddarau'r aelodau fel yr amlinellwyd yn (b) uchod.**

## **8. CWESTIYNAU FFURFIOL**

Roedd cwestiynau ysgrifenedig ffurfiol wedi eu cyflwyno gan Aelodau'r Pwyllgor a chafwyd yr atebion isod:

- (i) Roedd mater darpariaeth stoc cerbydau digonol i gwrdd â'r galw gan deithwyr yn ystod cyfnod y fasnachfaint newydd wedi ei drafod yn eitem 5 uchod ac ychwanegodd Mr Ben Davies y byddai'n anfon rhagor o wybodaeth i aelodau'r Pwyllgor drwy'r Swyddog Cefnogi Aelodau.
- (ii) Yr angen am gyhoeddiadau yn y Gymraeg neu yn ddwyieithog ymhob gorsaf ar hyd lein y rheilffordd. Atebodd Mr Ben Davies gan ddatgan ei fod yn cwrdd â swyddogion y Comisiynydd Iaith yn fuan i sicrhau fod yr holl gyhoeddiadau yn ddwyieithog drwy Gymru a byddai yn diweddarau'r aelodau ar ôl y cyfarfod hwnnw.  
Ychwanegwyd hefyd gan aelod y dylai'r cyhoeddiadau yn y lifftau yng Ngorsaf Machynlleth hefyd fod yn ddwyieithog.
- (iii) Pryderon aelodau o Gyngor Cymuned Llannor nad oedd yr holl sbwriel yn deillio o Ganolfan Ailgyrchu Pwllheli gan ei fod ar hyd yr holl ffordd o Bwllheli i Benychain. Roedd Sam Hadley wedi ateb pryderon Cyngor Cymuned Llannor drwy ddweud ei fod wedi codi'r mater gydag aelod o dîm cynnal a chadw Network Rail oedd yn gwybod am y broblem, ac roedd efy n credu ei bod yn deillio o drafferthion cadw sbwriel ar safle'r awdurdod lleol ac roedd wedi bod yn cyd-gysylltu gyda hwy i geisio datrys y mater. Fodd bynnag, ymddiheurodd Mr Hadley nad oedd y mater wedi ei ddatrys ac addawodd i godi'r mater eto gyda'r tîm cynnal a chadw. Holodd yr aelodau / mudiadau oedd yn rhan o'r Pwyllgor os oeddent yn gwybod am unrhyw fannau gwael ar hyd ochr y lein oedd angen eu clirio ac os oeddent dylent roi gwybod iddynt ar unwaith drwy ffonio'r tîm cymunedau ar 03457 114141 neu ar e-bost i [crwales@networkrail.co.uk](mailto:crwales@networkrail.co.uk)
- (iv) Derbyniwyd gohebiaeth hwyr drwy law'r Cynghorydd Gethin Williams, a anfonwyd i Gyngor Tref Abermaw, am adeiladu ffens newydd ar hyd terfyn cledrau'r rheilffordd a therfyn prif faes parcio Cyngor Gwynedd. Er eu bod yn gwerthfawrogi fod diogelwch o'r pwysigrwydd pennaf y farn ydoedd nad oedd maint a natur y ffens yn cyd-fynd â'r hyn oedd oddi amgylch ac roedd yn or-ddatblygiad ar gyfer ei ddiben. Addawodd Mr Sam Hadley i ymchwilio i'r mater ymhellach ac i gysylltu â'r Cynghorydd Gethin Williams yn uniongyrchol. Dywedodd hefyd ei fod yn ymwybodol fod un o'i gydweithwyr yn bwriadu ymweld ag Abermaw i siarad gyda Chyngor y Dref.

**Penderfynwyd: Diolch am y cwestiynau ac am yr atebion ffafriol a gafwyd gan y swyddogion.**

## 9. AELODAETH

**Cyflwynwyd -** Cais gan y Swyddog Rhanbarthol ar gyfer Cludiant Strategol, yn cynrychioli Cynghorau Ceredigion, Gwynedd a Phowys, i fynychu Pwyllgor Rheilffordd Arfordir y Cambrian.

**Penderfynwyd: Cymeradwyo'r cais.**

## 10. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

**Atgoffwyd yr aelodau y cynhelir cyfarfod nesaf y Cydgyfarfod gyda Phwyllgor Rheilffordd Amwythig-Aberystwyth ar ddydd Gwener, 25 Tachwedd 2016 yn y Plas, Machynlleth.**

**CADEIRYDD**





## **Adroddiad SDRh Chwefror 2017 i Bwyllgor Cynhadledd Rheilffordd Arfordir y Cambrian.**

### **Cyfarfod gyda Paul Maynard AS - Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol yr Adran Drafnidiaeth (Gweinidog Rheilffyrdd, AdTr).**

Buom yn ffodus i gael cynnig cyfarfod gyda Paul Maynard AS gyda'r bwriad o ofyn am ei gadarnhad i'r ymdrechion yr ydym yn eu cymryd i hyrwyddo Cynllun y Waled Oren yn genedlaethol. Mynychais y cyfarfod yma ynghyd â Ben Davies, Phil Caldwell a David Crunkhorn TAC, ac fe gawsom gyfarfod teg gyda Mr Maynard. Rhoddodd ei gadarnhad i'r cynllun ynghyd â chynghor ar sut i fwrw ymlaen ar y cyd gyda'i swyddogion. Mae hon yn enghraifft ardderchog o sut y gall prosiect lleol gan bartneriaeth rheilffordd gymunedol wneud marc yn genedlaethol a byddwn yn bwrw ymlaen gyda'i gyngor gan weithio mewn partneriaeth gyda TAC a Grŵp Arriva UK.

### **Masnachfaint Rheilffyrdd a chefnogaeth Llywodraeth Cymru**

Rwyf wedi mynychu amryw o gyfarfodydd ynghyd â chydweithwyr o'r bedair Bartneriaeth Rheilffyrdd Cymunedol arall yng Nghymru a'r Gororau, ble trafodwyd dyfodol y Partneriaethau a sut y gallent ffitio gyda'r fasnachfaint nesaf. Eleni, rydym wedi bod yn ffodus i dderbyn arian grant ar gyfer prosiectau refeniw a chyfalaf gan LIC ac wrth gwrs rydym yn awyddus i weithio gyda LIC i sicrhau rhagor o arian i'r blynyddoedd ariannol a ddaw.

Cawsom gadarnhad llafar ein bod wedi llwyddo yn ein ceisiadau am grant cyfalaf i gael llochesfannau i orsafoedd y Trallwng, Cyffordd Dyfi a Llanaber.

### **Cyhoeddiadau**

Rydym ar fin bwrw ati i gyhoeddi ein llyfryn newydd ar deithiau cerdded byr yn ardaloedd Rheilffyrdd y Cambrian. Bydd y llyfryn hwn yn cymryd lle taflenni Crwydrau'r Cambrian a brofodd i fod yn arbennig o boblogaidd ychydig o flynyddoedd yn ôl. Rydym wedi sicrhau

cefnogaeth Llwybr Arfordirol Cymru (drwy Gyfoeth Naturiol Cymru) ac rydym yn ceisio caniatâd i ddefnyddio arwyddluniau Llywodraeth Cymru/Croeso Cymru arno hefyd.

## **Arolygon**

Mae Partneriaeth Rheilffyrdd y Cambrian yn falch o gael gweithio gyda Phwyllgor Cyswllt Rheilffordd Amwythig i Aberystwyth ac rydym yn comisiynu arolygon i'w cynnal yng ngwanwyn 2017 fel rhan o'n grant gan Lywodraeth Cymru, i gael ei ddarparu ar ein rhan gan y pwyllgor a Grŵp Gweithredu Rheilffordd Canolbarth Cymru. Mae'r arolygon yn dilyn llwyddiant arolygon 2013 a 2015 a olygodd well gwasanaethau ar Leiniau'r Cambrian.

## **Ymgyrch Hyrwyddo 2017**

Rydym eisoes wedi cynhyrchu ffilm hyrwyddo fer ac yn ceisio arian ychwanegol i ganiatáu i ni baratoi gwefan newydd sbon sy'n canolbwyntio ar ymwelwyr gyda ffilmiau byr eraill y bwriedir eu rhyddhau yn Chwefror/Mawrth tan ddechrau'r haf eleni. Bydd yr ymgyrch wedi ei seilio yn uniongyrchol ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol.

## **Storiâu a Llyfrau ar y Cambrian**

Mae gwasanaeth llyfrgelloedd Cyngor Ceredigion a'r Cyngor Llyfrau Cymraeg wedi cysylltu â ni i weithio ar brosiectau pellach i gysylltu storiâu a llyfrau gyda Leiniau'r Cambrian. Rydym ar hyn o bryd yn aros am gadarnhad o'r manylion a'r arian sydd ar gael i dreialu beth fedrai ddatblygu i fod yn brosiect o Fôn i Fynwy.

## **Cynllun Busnes 2017-2018**

Mae ein cynllun busnes am y flwyddyn ariannol nesaf yn cael ei baratoi a bydd yn amlinellu ein prosiectau am y 12 mis nesaf. Cyflwynir hwn yng nghyfarfod nesaf Partneriaeth Rheilffyrdd y Cambrian i'w gymeradwyo gan y rhan-ddeiliaid ariannu a bwriedir cynnal hwn ym mis Mawrth.

**Rhydian Mason**  
**Swyddog Datblygu Rheilffyrdd**  
**Partneriaeth Rheilffyrdd y Cambrian**  
[rhydian.mason2@ceredigion.gov.uk](mailto:rhydian.mason2@ceredigion.gov.uk)

**07/02/2017**

# Eitem 9

**CYNHADLEDD RHEILFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN**  
**CAMBRIAN COAST RAILWAY LIAISON CONFERENCE**

**Cwestiwn i TRENAU ARRIVA CYMRU CYF. / Question for ARRIVA TRAINS LTD**

**Cwestiwn i / Question for NETWORK RAIL**

A yw'n bosibl cael cysgodfan yng Nghyffordd Dyfi?

**Cwestiwn i'r PWYLLGOR / Question for LIAISON MEETING**

Oddi wrth / From : Y Cyng. Selwyn Griffiths, Cadeirydd Cynhadledd  
Rheilffordd y Cambrian

**CYNHADLEDD RHEILFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN**  
**CAMBRIAN COAST RAILWAY LIAISON CONFERENCE**

**Cwestiwn i TRENAU ARRIVA CYMRU CYF. / Question for ARRIVA TRAINS LTD**

**Cwestiwn i / Question for NETWORK RAIL**

Pam nad oedd dim ymgysylltu â'r Defnyddwyr, Grŵp Mynediad a Chyngor Gwynedd ynghylch y gwaith a wnaed yng Ngorsaf Dyffryn Ardudwy ym mis Ionawr 2017.

**Cwestiwn i'r PWYLLGOR / Question for LIAISON MEETING**

**Oddi wrth / From:**

**Mr Delwyn Evans, Grwp Mynediad Meirionnydd / Meirionnydd Access Group**



**CYNHADLEDD RHEILFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN**  
**CAMBRIAN COAST RAILWAY LIAISON CONFERENCE**

**Cwestiwn i TRENAU ARRIVA CYMRU CYF. / Question for ARRIVA TRAINS LTD**

Pam nad oes pass teithio am ddim ar gyfer yr henoed drwy'r flwyddyn yn hytrach nag yn ystod misoedd y gaeaf yn unig?

**Cwestiwn i / Question for NETWORK RAIL**

**Cwestiwn i'r PWYLLGOR / Question for LIAISON MEETING**

**Oddi wrth / From:**

**Cyngor Cymuned Llanystumdwy / Llanystumdwy Community Council**

**CYNHADLEDD RHEILFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN**  
**CAMBRIAN COAST RAILWAY LIAISON CONFERENCE**

**Cwestiwn i TRENAU ARRIVA CYMRU CYF. / Question for ARRIVA TRAINS LTD**

Pam nad ydy'r Rheolwyr yn gweithredu polisi iaith a fydd yn rhoi ei phriod le i'r Gymraeg ar y trêen ac yn ei gorsafoedd, ar lafar ac ar glawr, gan sicrhau bod ynganiad cyhoeddwy yn broffesiynol.

**Cwestiwn i / Question for NETWORK RAIL**

**Cwestiwn i'r PWYLLGOR / Question for LIAISON MEETING**

Oddi wrth / From: Cyngor Tref Penrhyndeudraeth / Penrhyndeudraeth Town Council

**CYNHADLEDD RHEILFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN**  
**CAMBRIAN COAST RAILWAY LIAISON CONFERENCE**

**Cwestiwn i TRENAU ARRIVA CYMRU CYF. / Question for ARRIVA TRAINS LTD**

1. Cael cyfarwyddiadau dwy ieithog ar y trenau yng Nghymru
2. Gwell ehangu ar enwau Cymraeg yn yr hysbysiadau ar y Stesion, Mae'r sillafu yn angelur iawn

**Cwestiwn i / Question for NETWORK RAIL**

**Cwestiwn i'r PWYLLGOR / Question for LIAISON MEETING**

**Oddi wrth / From:      Cyngor Tref Pwllheli / Pwllheli Town Council**

**CYNHADLEDD RHEILFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN**  
**CAMBRIAN COAST RAILWAY LIAISON CONFERENCE**

**Cwestiwn i TRENAU ARRIVA CYMRU CYF. / Question for ARRIVA TRAINS LTD**

A fyddai modd trefnu un trêrn cyflym y dydd y ddwy fordd ar Arfordir y Cambrian er mwyn cyflymu y siwrne i Fachynlleth a nôl?

**Cwestiwn i / Question for NETWORK RAIL**

A oes diweddariad ar waith i wella wyneb croesffordd Cricieth yn dilyn damwain gan gerddwr?

**Cwestiwn i'r PWYLLGOR / Question for LIAISON MEETING**

Oddi wrth / From : Cyngor Tref Cricieth / CricciethTown Council

**CYNHADLEDD RHEILFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN**  
**CAMBRIAN COAST RAILWAY LIAISON CONFERENCE**

**Cwestiwn i TRENAU ARRIVA CYMRU CYF. / Question for ARRIVA TRAINS LTD**

**Cwestiwn i / Question for NETWORK RAIL**

**Mae Aelodau Cyngor Cymuned Llangelynnin wedi bod yn bryderus ers peth amser am faterion diogelwch ar y ffordd uchod gan fod y wal derfyn a'r rhwystrau diogelwch mewn cyflwr gwael iawn ac angen sylw brys cyn i ddamwain angheuol ddigwydd.**

23.01.15 - Adroddodd Cyngor Cymuned Llangelynnin am eu pryderon i Gyngor Gwynedd – yn amlygu'r peryglon i ddefnyddwyr ffordd ar y rhan yma gan fod y rhwystrau diogelwch ddim yn addas i'w pwrpas.

12.05.15 – Cadarnhaodd Cyngor Gwynedd eu bod wedi asesu'r safle ac o ganlyniad i hyn rhoddwyd cyfyngiad 30mya dros dro ar y rhan yma er diogelwch defnyddwyr y ffordd. Hysbyswyd y Cyngor Cymuned hefyd eu bod wedi cysylltu gyda'r Rheilffordd i gael eu hymateb, gan fod y Rheilffordd yn gyfrifol am y wal derfyn a'r rhwystrau diogelwch.

06.10.15 – Cadarnhaodd Cyngor Gwynedd eu bod wedi cysylltu â'r Rheilffordd ac y byddai cyfarfod safle yn cael ei gynnal rhyw dro ym mis Hydref – ond nid oedd unrhyw ddyddiad wedi ei bennu.

01.02.16 – Anfonodd Cyngor Cymuned Llangelynnin lythyr at Network Rail i amlygu eu pryderon am faterion diogelwch yma – Cyf Grid SH61096 o bentref Friog, i'r de tuag at bentref Llwyngwrl – Cyf Grid SH60213 11238

29.02.16 - Derbyniwyd neges oddi wrth Network Rail yn cadarnhau bod cais y Cyngor Cymuned wedi ei drosglwyddo i Dîm Strwythurau RAM Network Rail i'w ymchwilio ymhellach – Cyfeirnod Network Rail – 160204-000019.

12.04.16 - Neges gan Mr Stewart McIlroy Swyddog Cysylltiadau Cymunedol, Network Rail gyda diweddariad am yr achos – 'Cynigwyd y bydd Cyngor Gwynedd yn ymgymryd â'r gwaith ar ran Network Rail ar gost Network Rail'

11.07.16 – Derbyniwyd neges oddi wrth Mr McIlroy yn dweud y bydd yn cysylltu gyda ni gan ein diweddaru unwaith y bydd wedi cael rhagor o wybodaeth ...  
...hyd yma ni allaf roi ateb na diweddariad gan Network Rail na Chyngor Gwynedd ynglŷn â beth y bwriedir ei wneud yma ...

Fel y soniais yn fy llythyrau diwethaf at Gyngor Gwynedd a Network Rail ym mis Tachwedd 2016 a Ionawr 2017, bu digwyddiad yma cyn y Nadolig pan darodd car i fewn i'r wal derfyn ond diolch i'r drefn ni aeth dros drac y rheilffordd. Mae'r wal yn dal wedi ei dymchwel ac mae'r arwyddion ffordd yn rhybuddio defnyddwyr ffordd eraill am y perygl yn dal ar y safle – bron i dri mis ar ôl y ddamwain.

A wnewch chi, os gwelwch yn dda, geisio cael Cyngor Gwynedd a Network Rail i gyd-gysylltu ac i ymroi i ddyddiad ynglŷn â phryd y byddant yn dechrau ar y gwaith gan fod angen i hyn gael ei wneud fel mater o frys, cyn i ddamwain angheuol ddigwydd yma – does neb eisiau cael y bai am esgeulustod yn nag oes?

**CYNHADLEDD RHEILFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN**  
**CAMBRIAN COAST RAILWAY LIAISON CONFERENCE**

**Cwestiwn i TRENAU ARRIVA CYMRU CYF. / Question for ARRIVA TRAINS LTD**

**Cwestiwn i / Question for NETWORK RAIL**

**Ynglŷn â: Diffyg Goleuadau ym Maes Parcio Gorsaf Llwyngwrl**

Mae Cyngor Cymuned Llangelynnin wedi derbyn nifer o gwynion gan aelodau o'r gymuned am y diffyg goleuadau ym Maes Parcio'r Orsaf. Y cwynion yw ei bod hi yn dywyll iawn ac yn beryglus i gerddwyr gerdded o'r platform i'r ffordd.

17.12.14 – Adroddodd Cyngor Cymuned Llangelynnin y gŵyn yma i Network Rail.

05.01.15 – Derbyniwyd ateb gan Jordan Pepperall, Network Rail [Digwyddiad: 14131-000092] yn dweud ' er mai Network Rail yw'r perchennog tir, mae'r ardal dan brydles i Drenau Arriva Cymru ac felly anfonwyd y gŵyn ymlaen i TAC.

21.01.15 – Ateb gan Trenau Arriva Cymru [Cyf achos ATW-150105-L8W] yn cadarnhau 'nid oes unrhyw lampau yn y maes parcio hwn a'r unig olau sydd ar gael yw'r golau ar y platform. Byddai yn rhaid i Network Rail ymgymryd â gwaith gwella i ddarparu goleuadau. Felly, byddwn yn dwyn hyn i'w sylw mewn cyfarfod yr wythnos nesaf, er hynny ar hyn o bryd nid oes unrhyw gynlluniau gyda hyn i'r dyfodol. Er bod yr ardal o dan brydles eu cyfrifoldeb hwy yw ymgymryd â'r gwelliant yma.'

Mae Aelodau Cyngor Cymuned Llangelynnin yn dal yn bryderus am y diffyg golau ym Maes Parcio Gorsaf Llwyngwrl a byddem yn ddiolchgar pe medrech ddod â'r mater yma i sylw Pwyllgor Cyswllt Arfordir y Cambrian i'w drafod yn eich cyfarfod nesaf gan y gobeithio y ceir ateb ffafriol.

**Cwestiwn i'r PWYLLGOR / Question for LIAISON MEETING**

Oddi wrth / From : Cyngor Cymuned Llangelynnin / Llangelynnin  
Community Council

**CYNHADLEDD RHEILFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN**  
**CAMBRIAN COAST RAILWAY LIAISON CONFERENCE**

**Cwestiwn i TRENAU ARRIVA CYMRU CYF. / Question for ARRIVA TRAINS LTD**

1. Beth yw'r datblygiadau am drên hwyr o Bwllheli ?
2. Parthed yr iaith Gymraeg – Beth yw'r polisi iaith ynglyn â arwyddion, hysbysebion a penodi staff?

**Cwestiwn i / Question for NETWORK RAIL**

Safon cyfleusterau gorsaf drên Porthmadog. Byrddau arddangos , cysgodfan ayb. A fyddai'n bosib cyd-drafod ar y ffordd ymlaen i harddu'r orsaf o ran gwelediad cyntaf? Mae angen gwella ac uwchraddio ar frys. Nodwyd mai hwn yw edrychiad cyntaf llawer o bobl o'r dref a ddim yn creu argraff da iawn.

**Cwestiwn i'r PWYLLGOR / Question for LIAISON MEETING**

Mae'r Cyngor Tref wedi derbyn gohebiaeth gan drigolyn lleol Mr Hunt - gweler gopi o'r ddogfennaeth yn amgaeedig.

**Oddi wrth / From:**

**Cyngor Tref Porthmadog / Porthmadog Town Council**

Tel. 01766 514602.

(21)

MARINE TERRACE,  
PORTHMADOG,  
LL49 9BL.

February 3<sup>rd</sup>/2017.

TO PORTHMADOG Town Council.

02117

For 18 months now, I have been trying to persuade ARRIVA TRAINS WALES to do some minor repairs on Porthmadog mainline station, to improve shelter for waiting passengers.

I enclose copies of my rough notes, and correspondence, to and from Arriva.

I am disappointed and frustrated with the results, so far, and thought I would forward these copies to you, for the record.

You, yourselves, may be able to put your own in to try and get a positive result!

Sincerely,

Ian R. Hunt.

(323)



# ARRIVA TRAIN WALES

Customer Relations  
03333/211202

re. CAMBRIAN COAST LINE + CONWY VALLEY LINE

- (1) LACK of new (May/15) Timetables (FOR Toms & Info Bureau  
+ FR/WHR etc)  
Rang MARKETING MANAGER, Clive Lillie at CARDIFF.  
Direct Tel. No. 02920 720501

None!  
Sent!

She is to arrange for a good supply of Timetables  
(Nos. 1 + 4) to be sent to my address (1 Marine Terrace

(She has my full name, address, and tel. no for future ref.)

- (2) Also, spoke to her about display board for Arriva  
Trains Wales in the Park, at Porthmadog, being  
removed (when line was closed in 2014), and not  
replaced. She is to look into this.

\* I need to write to ARRIVA TRAINS WALES in Cardiff

- (3) TRAIN STATION SHELTERS - PORTHMADOG

Rang Customer relations re above, and their state  
of disrepair due to storm damage

\* I need to write to ARRIVA TRAIN WALES in Cardiff  
and tell them details.

WRITE

11<sup>th</sup> August, 2015.

1, MARINE TERRACE,  
PORTHMADOG,  
GWYNEDD,  
LL49 9BL.

Dear Sir,

First of all, may I say that I, like many others, appreciate the train services you provide, both on the Cambrian Coast line, and on the Conwy Valley line, to Blaenau Ffestiniog.

My observations concern here, in Porthmadog.

Firstly, the station. The repairs to the damaged roof and awning of the main station building (damage done in the storms of early 2014) have, actually, improved the station, as we now have light coming through the awning roof, onto the platform, through the translucent sheet replacement.

There are shelters on each platform, with a bench seat, for inclement weather, and/or those unable to stand for long periods. However, these shelters are regularly damaged, not by the weather—more-like, by the (few) local vandals—to such an extent, that weather protection is often virtually nil. Whilst the down platform (to Porthelli) needs such a shelter/shelters, as there is no surviving original building on this side, the up platform, (to Machynlleth)

would be perhaps better provided with a couple of traditional benches, under the awning, alongside the part of the building not let to the adjacent Station Inn licensed premises. The existing shelter on this side could then be removed (to save further repairs to damage) OR, perhaps, re-erected, on the other side, to provide 2 shelters on that side (often required at busy times — school children, college students, etc., going to Pwllheli, for instance.)

---

My second observation. Prior to the closure of this section of the Cambrian Coast line, in 2014 for a long period (due, initially, to the Brierley Bridge reconstruction, but then, also, because of some substantial storm damage to the line) there was a display board, "ARRIVA TRAINS WALES" in the Park in the town centre, alongside the High St., and main bus stops in the town, (some  $\frac{1}{2}$  mile from the actual railway station) with relevant information, timetables, etc. AND, importantly, telling of the presence of a mainline station in the town to those, such as visitors and tourists, who might well not be aware! This board has not been replaced, even though the line has been fully re-opened, and the posts are still there, waiting.

### III

My third observation. This also impinges around publicity. There is a dearth of information in this area, about Arriva Trains, Wales — including the actual timetables. I am aware of the call centre, based in Penrhyn-deuduaeth, and I, on occasions, call in at the premises to pick up the odd timetable from the entrance vestibule. However, there appears to be no organised supply of timetables (for both the Cambria line, and the Conwy Valley line) to such places as the Tourist Information Office in Porthmadog, or the Ffestiniog Railway, also in Porthmadog. I would suggest that these two outlets, in particular, should be on Arriva Trains Wales mailing list for a supply of timetables, particularly on the run-up to timetable changes, in May and October each year.

Some of my comments may be the concern of Network Rail. If so, do you pass such comments and observations onto them? Please acknowledge this letter, and tell me if I have to contact Network Rail directly myself with any such points.

Yours sincerely,

Ian R. Hunt.

Mr Ian R Hunt  
1 Marine Terrace  
PORTHMADOG  
Gwynedd  
LL49 9BL

07 October 2015

*2 months to reply!*

**Your Case Reference: ATW-150817-JJ5**

Dear Mr Hunt

Thank you for contacting us about your recent journey. Firstly, I am sorry that my reply to you is not as prompt as we usually endeavour; however we are working hard to ensure that all of our customers receive a response to their complaint as quickly as possible.

I would like to thank you for your observations at a number of our stations and apologise for that our facilities have fallen short of your expectations. I know that our company is pushing to get funding for redeveloping a number of our stations and thank you for bringing this matter to our attention. All of your feedback has been logged with our Property department and referred to the relevant members of our management team. If in the future this is something we are able to address I am confident your findings will be reviewed.

In conclusion, thank you once again for your comments and I am sorry that it was necessary for you to contact us about your findings on this occasion. Please do not hesitate to let me know if I can be of any further assistance to you.

Yours sincerely



**Jennifer McIntyre**  
Customer Relations Advisor  
Arriva Trains Wales

Tel 03333 211 202  
E-mail [Customer.Relations@arrivatrainswales.co.uk](mailto:Customer.Relations@arrivatrainswales.co.uk)  
Web [www.arrivatrainswales.co.uk](http://www.arrivatrainswales.co.uk)  
Address St Mary's House, 47 Penarth Road, Cardiff, CF10 5DJ

10<sup>th</sup> December 2016

1 MARINE TERRACE,

PORTHMADOG,

GWYNEDD,

LL49 9BL.

Dear Sir,

I enclose a copy of a letter I sent to you 16 months ago, with my observations on your branch lines to Pwllheli and Blaenau Ffestiniog. I received an acknowledgement a couple of months later (copy enclosed)

My reason for writing again is in regard to the first observation, about the lack of shelter on Porthmadog Station. Nothing has been done, and we are now into the second winter, since my letter, without adequate shelter on the station. What I originally suggested, still stands, and is relatively minor work, and I am surprised that nothing has been done.

Yours sincerely,  
Ian R. Hunt.